# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-11-08)

**Dyddiad: 22 Mai 2008**
**Amser: 13:00 – 14:00**
**Lleoliad: Ystafell bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau’r Cynulliad yn bresennol

Mike German (Cadeirydd Dros Dro), Dwyrain De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Davies,Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Y Gwasanaeth Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Annette Stafford, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Jane Milne, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd Busnes, Consortiwm Manwerthu Prydain
Richard Swannell, Cyfarwyddwr Rhaglenni Manwerthu a Materion Organig, Rhaglen Weithredu’r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd dros Dro bawb i’r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Mick Bates, Alun Ffred Jones, Karen Sinclair, a Brynle Williams. Yr oedd Mike German yn dirprwyo dros Mick Bates a Nerys Evans yn dirprwyo dros Alun Ffred Jones. Cynigiodd y Cadeirydd bod llythyr yn cael ei ysgrifennu i ddymuno’n dda i Karen Sinclair ar ran y Pwyllgor a chytunwyd i hyn.

### 2: Ystyried deiseb rhif P-03-063, sy’n galw am wahardd bagiau plastig (13:05 – 14:00)

### SC(3)-11-08 (p1)

2.1 Croesawodd y Cadeirydd dros Dro Jane Milne o Gonsortiwm Manwerthu Prydain a Richard Swannell o’r Rhaglen Manwerthu a Materion Organig i’r cyfarfod a’u gwahodd i gyflwyno’u hadroddiadau ysgrifenedig. Bu’r Aelodau’n holi’r tystion.

2.2 Ar ddiwedd y cyfarfod cytunwyd y dylai’r Cadeirydd dros dro ysgrifennu at y tystion gydag unrhyw gwestiynau ychwanegol.

2.2 Rhoddodd y Cadeirydd dros Dro wybod i Aelodau’r Pwyllgor bod yr ymweliad arfaethedig â Dulyn i dderbyn tystiolaeth ar effaith gweithredu’r Llywodraeth yno ar fater ba gïau plastig, wedi’i drefnu ar gyfer 14 Gorffennaf.